Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 05/05/2020 |
| **Pwnc / Subject:** | Sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Cyflwyniad**

Rydym yn cefnogi'r cynigion a awgrymir yn yr ymgynghoriad. Mae angen arweiniad sy'n amlinellu'n glir rôl sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol, awdurdodau lleol a'u partneriaid.

I ymateb i Gwestiwn 9, rydym wedi nodi nifer o faterion mewn perthynas â throsglwyddo cyfrifoldeb oddi wrth Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r canlynol: cynllunio, comisiynu, trothwyau CDU a chyllid. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eu hunain ynghylch parodrwydd awdurdodau lleol cyn trosglwyddo cyfrifoldebau. Mae'r effaith y bydd y pandemig presennol wedi'i chael ar gynlluniau awdurdodau lleol ac amserlenni Llywodraeth Cymru yn aneglur.

## Cwestiynau

### Cynnwys y rhestr – rheoliadau 3 a 4

**Cwestiwn 1 –** A ydych yn cytuno â'r wybodaeth a'r trefniadau mae'n ofynnol eu cynnwys ar y rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Byddai Rheoliad 3 yn cael ei gryfhau ymhellach pe bai'n gwahaniaethu rhwng nifer y dysgwyr y darperir ar eu cyfer fel preswylwyr a'r dysgwyr y darperir ar eu cyfer fel dysgwyr dydd.

### Gofynion o ran bod ar y rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol a pharhau i fod arni – rheoliadau 5 a 6

**Cwestiwn 2 –** A ydych yn cytuno â'r gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw fel amod o fod ar y rhestr a'r gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw tra bydd sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol wedi'i gynnwys ar y rhestr?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

O ran addysg a hyfforddiant ôl-16 a ariennir yn gyhoeddus, mae gan PAEM rwymedigaeth gyfreithiol ar hyn o bryd i ddarparu adroddiadau i Weinidogion ar ansawdd addysg a hyfforddiant. Mae Estyn yn rhannu'r rhain â Gweinidogion Cymru fel mater o drefn. Mae'r rheoliadau a'r arweiniad, fel y maent wedi eu drafftio ar hyn o bryd, yn gosod gofyniad ar sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol i ddarparu'r adroddiadau hyn hefyd, sydd hefyd yn fuddiol, ond nid yw'n gwbl angenrheidiol ar gyfer darparwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai cynnwys y gofyniad hwn yn fuddiol yn achos

darparwyr yn Lloegr.

Mae Rheoliad 5 a 6 yn gofyn am dystiolaeth mewn perthynas â hyfywedd ariannol, er mwyn cynnwys sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol ar y rhestr. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa wiriadau fydd yn cael eu darparu i Weinidogion Cymru yn y dyfodol. Mae angen i wiriadau o'r fath gael eu cynnal yn rheolaidd gan gyrff sy'n gymwys i wneud hynny, a dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio gwybodaeth i sicrhau / lliniaru yn erbyn cau lleoliadau dysgwyr yn y sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn sydyn, neu'u dirwyn i ben yn gynnar.

**Newid trefniadau – rheoliad 7**

**Cwestiwn 3 –** A yw'r gweithdrefnau ar gyfer newid trefniadau'r sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn briodol?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydynt** | ✓ | **Nac ydynt** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

Byddai'r adran hon yn gryfach pe bai sicrwydd gan y perchennog presennol a'r darpar berchennog y bydd parhad mewn dysgu, cymorth, a llety, yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod newid perchnogaeth, pan wneir cais am newid perchennog. Yn ychwanegol, byddai'n ddarbodus i gyrff perthnasol [y tu allan i'r sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol] gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar unrhyw gynllun arfaethedig i newid perchennog.

## Gwneud cais i dynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr – rheoliad 8

**Cwestiwn 4** – A ydych yn cytuno â'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais i dynnu sefydliad oddi ar y rhestr?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ✓ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

Mae'r gofyniad am gyfnod rhybudd o 28 diwrnod yn annigonol i sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, rhieni, pobl ifanc ac asiantaethau eraill i sicrhau darpariaeth briodol. Nid yw'r weithdrefn a amlygwyd yn Rheoliad 8 yn rhoi digon o ystyriaeth i'r trefniadau y mae angen eu gwneud i sicrhau darpariaeth briodol mewn mannau eraill.

**Tynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr – rheoliadau 9 a 10**

**Cwestiwn 5 –** A ydych yn cytuno â'r ystyriaethau i dynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr a'r weithdrefn ar gyfer gwneud hynny?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r ystyriaethau yn fras ar y cyfan, ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r parhad mewn dysgu, cymorth a llety'r dysgwyr sy'n mynychu'r sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol. O ganlyniad, nid yw'r ystyriaethau yn y rheoliadau yn diogelu dysgwyr yn ddigon da. Gellid defnyddio'r arweiniad atodol i gryfhau'r gofynion hyn.<br><br>Mae angen i effaith tynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr gael ei gwneud yn glir i'r holl gyrff perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol, rhieni a phobl ifanc.<br><br>Nid yw'n ddigon clir pa broses y gellir ei rhoi ar waith os bydd Estyn yn adrodd am ddiffygion yn ansawdd y ddarpariaeth. Sut bydd y trothwy ansawdd derbyniol yn cael ei bennu? Pa gamau fyddai LlC yn eu cymryd i geisio gwelliannau mewn ansawdd gan sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol cyn ei dynnu oddi ar y rhestr? A oes yna unrhyw gamau eraill y mae angen eu cyflwyno, e.e. y pŵer i gyfyngu ar unrhyw leoliadau newydd os bydd darparwr yn tanberfformio? |

**Hawl i apelio – rheoliadau 11 ac 12**

**Cwestiwn 6 –** A yw'r gweithdrefnau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau yn briodol?

| Ydynt | ✓ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae Rheoliad 11, paragraff 4, yn amlinellu gweithdrefnau priodol, ar y cyfan, y dylid eu mabwysiadu lle mae ETW yn ystyried bod risg o niwed difrifol i les dysgwyr. Fodd bynnag, byddai ychwanegu arweiniad clir at y rheoliadau ynglŷn â'r mater hwn a'r rhai a nodwyd yn yr ymatebion i gwestiynau 4 a 5 yn fuddiol.<br><br>Mae'r rheoliadau yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol i apelio penderfyniadau yn glir. Mae ychwanegu arweiniad clir at y rheoliadau ar gyfrifoldebau sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol, awdurdodau lleol a phartneriaid wrth sicrhau parhad mewn dysgu, cymorth a llety yn y senarios a restrir yn Rheoliadau 11 a 12 yn hanfodol. |

**Cwestiwn 7** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r rheoliadau sefydliadau ôl-16 arbennig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Ni chaiff y rheoliadau sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol unrhyw effaith benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac mewn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

**Cwestiwn 8** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y rheoliadau sefydliadau ôl-16 arbennig arfaethedig:

i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gellid diwygio rheoliadau i gyfeirio'n benodol at y ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno cael eu haddysg a'u hyfforddiant yn Gymraeg.

**Cwestiwn 9 –** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

**Sylwadau ategol**

1.Nododd Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd [2018-2019] ym mwyafrif y sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol [colegau] a arolygwyd, fod prosesau trylwyr i nodi mannau cychwyn dysgwyr pan fyddant yn dechrau yn y coleg yn rhoi gwybodaeth fanwl i diwtoriaid a staff cymorth am anghenion a galluoedd dysgwyr. Fodd bynnag, nid oedd traean o golegau yn cael gwybodaeth bwysig am anghenion a dysgu blaenorol dysgwyr. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i'r colegau hyn gynllunio llwybrau dysgu addas ar gyfer dysgwyr.

Rydym ar ddeall bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol i ddatblygu eu set eu hunain o drothwyau sy'n gwahaniaethu pan fydd CDU yn cael ei gynnal gan yr ysgol a'r rhai a fydd yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae rôl y gymuned sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol mewn gweithio gydag awdurdodau lleol i

bennu meini prawf CDU ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn aneglur.  Gan fod rhanbarthau ac awdurdodau lleol yn datblygu eu meini prawf eu hunain, mae hyn yn debygol o arwain at ddulliau anghyson o nodi a diwallu anghenion ledled Cymru.

2. Mae'r Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i adolygu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn gyson.  Fodd bynnag, nid yw'n glir pa mor barod yw awdurdodau lleol i gomisiynu a sicrhau ansawdd sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol.  Mae'r ymgysylltu rhwng awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru o ran cefnogi awdurdodau lleol, sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yn ystod y cyfnod pontio, hefyd yn aneglur.  Nododd ein harolygiad thematig "Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol", Mai 2016, fod y rhan fwyaf o golegau arbenigol annibynnol yn cysylltu'n dda â Gyrfa Cymru ac awdurdodau lleol i wneud yn siŵr fod y cyfnod pontio o'r coleg mor esmwyth ag y bo modd i'r dysgwr.  Fodd bynnag, fe wnaethom nodi hefyd, i leiafrif o ddysgwyr sy'n sicr ynglŷn â'u dewis yn y dyfodol, fod oedi yn aml wrth ddod o hyd i leoliad cyrchfan sicr ac addas.  I lawer o ddysgwyr, prin yw'r dewis ar gyfer eu dyfodol, ac mae llawer ohonynt yn derbyn yr hyn sydd ar gael yn y pen draw, yn hytrach na'r hyn sy'n diwallu eu hanghenion.

3. Amlygodd adroddiad blynyddol diweddaraf y Prif Arolygydd fod staff addysgu ym mhob un o'r colegau a arolygwyd yn meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion dysgwyr, a'u bod yn meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda nhw.  Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i osod nodau dysgu unigol sy'n rhoi ystyriaeth addas i wahanol ddiddordebau a dyheadau dysgwyr.  Yn y mwyafrif o golegau, mae'r addysgu yn canolbwyntio'n hynod effeithiol ar ddatblygu annibyniaeth dysgwyr.  Mae profiadau dysgu yn darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol i ddysgwyr sy'n ennyn diddordebau ac yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn dda.

Rydym ar ddeall bod y canlynol yn wir ynghylch mecanweithiau a fformiwla cyllid i awdurdodau lleol:

a) nid ydynt wedi cael eu pennu eto, ac
b) maent yn debygol o gael eu dad-ragdybiaethu.

Mae'r naill a'r llall o'r rhain yn creu cryn ansicrwydd yn y system i'r holl bartneriaid perthnasol, gan gynnwys: sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol, awdurdodau lleol, a phobl ifanc.  Mae risg hefyd na fydd awdurdodau lleol mor barod ag y mae angen iddynt fod i ymgymryd â'r trosglwyddo cyfrifoldeb.

Mae risg y bydd awdurdodau lleol yn ceisio sicrhau darpariaeth ar sail yr hyn sy'n costio leiaf, ac ni fydd hyn o reidrwydd er lles dysgwyr.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐